*CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**7 yh nos Fercher Medi 18 2024**

**E1.9.24 Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith ( Cadeirydd ), John Gwynedd Robert ( Is- Gadeirydd), Gwilym Jones, Alwyn Gruffydd, Marian Roberts (Clerc)
**Absennol** : Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng  Michael Roberts
**E2.9.24 Ymddiheuriadau :-** Cyng Carol Hayes, Cyng Trefor Jones

**E3.9.24 Cae Bodawen - Penderfynu ar offer chwarae newydd i Gae Bodawen ar gais National Grid fydd yn ariannu'r pryniant.**

Roedd y Clerc wedi derbyn amcangyfrif gan gwmni G.L.Jones am offer chwarae newydd "like for like" ar gyfer Cae Chwarae Bodawen er mwyn trosglwyddo'r wybodaeth i National Grid gan mai nhw fyddai'n talu am yr offer newydd.
Cyfanswm yr amcangyfrif oedd £81,630.00 ond cytunwyd y byddai'r pris yma wedi codi'n sylweddol erbyn 2028 pan fydd y gwaith gosod ceblau wedi gorffen a'r tir wedi ei baratoi ar gyfer gosod offer newydd. Cytunwyd y dylid awygrymu amcangyfrif o £150k i sicrhau bod yr offer yn cael ei osod a'r llwybrau ac ati wedi eu dychwelyd i'w cyflwr gwreiddiol.
**Penderfynwyd :**- y Clerc i ddyfynnu'r pris o £150k i National Grid ac i holi am y posibilrwydd o'r Cyngor Tref gael ei ddigolledu am yr amser pan na fydd y cae chwarae ar gael i blant a thrigolion Porthmadog.

**E4.9.24 Bwrdd gwybodaeth Madocks** - **Penderfynu ar gynnig Ffion Gwyn i barhau â'r prosiect**
**Penderfynwyd :-** y Clerc i gysylltu'n ôl efo Ffion Gwyn i ddweud wrthi am fwrw 'mlaen gyda'r prosiect a manylu y dylai'r bwrdd gwybodaeth gynnwys hanes Madocks;y Cob;Boston Lodge a phwysigrwydd y diwydiant llechi.

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol**
**7 yh nos Fercher Medi 18 2024**

**C1.9.24 Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith ( Cadeirydd ), John Gwynedd Robert ( Is- Gadeirydd), Gwilym Jones, Alwyn Gruffydd, Marian Roberts (Clerc)
**Absennol** : Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng  Michael Roberts
**C2.9.24 Ymddiheuriadau :-** Cyng Carol Hayes, Cyng Trefor Jones

**C3.9.24 Diweddariad ar sefyllfa prynu coed Nadolig**
Yn dilyn derbyn y newyddion drwg fod canolfan goed Glasfryn yn methu darparu coed Nadolig eleni a bod y busnes yn cau ar 22.11.24 cafwyd gwybod gan y Clerc ei bod wedi sicrhau darparwr arall ar gyfer y coed Nadolig a'i bod wedi trefnu cludiant iddynt fel y byddant yn cyrraedd depot Cyngor Gwynedd Llyn Bach erbyn 21.11.24 er mwyn eu gosod yn eu lle ar 22.11.24. Mae'r Clerc hefyd wedi trefnu Sion Corn, Mrs Corn ; Band yr Oakeley i ganu carolau. Bydd y Ganolfan yn darparu ffilm a lluniaeth yn y neuadd fawr.
**Penderfynwyd :-** bwrw ymlaen efo'r trefniadau a gofyn i Medi Harris a Gwyn Vaughn ( Arthur yn Rownd a Rownd ) i ddod i oleuo'r goleuadau ar 29.11.24.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.00.
Marian Roberts (Clerc)
19.9.24